CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
15 Mehefin 2021, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, C McGregor, A Wyn, G D Williams, D Pritchard, W Williams, D Roberts, A Williams A C Jones, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc). Hefyd Jane Jones, Hospis Dewi Sant	
YMDDIHEURIADAU: Cyng E S Williams, C Jones	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Roberts. Croesawodd y Cadeirydd Jane Jones, Hospis Dewi Sant. Cafwyd cyflwyniad byr gan Jane ar yr uned newydd yng Nghaergybi. Diolchodd Jane i'r cyngor hefyd am eu rhodd
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 18.05.21. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D Pritchard yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Cydgodfan Bws, Talwrn** – Mewn llaw
4.2	**Lon Llangwyllog – Llynfaes –** Ymateb y Cyngor Sir: **"***Cadarnhaf fod order I glirio ac ail siapio y ffosydd yma wedi ei yrru I ein contractwyr i gael ei wneud yn yr wythnosau nesaf. Gobeithio fod hyn yn foddhaol"*
4.3	**Damweiniau Sgwar Talwrn a Llangwyllog** – Mae'r Clerc yn ceisio trefnu cyfarfod ond mae'n cael anhawster sicrhau bod pawb ar gael ar yr un dyddiad
4.4	**Dwr ar lôn Benllech – Llanddyfnan** – Mewn llaw
4.5	**Anglesey Computer Solutions** – Mae'r Clerc wedi cael 2 bris am gyfieithu'r ddogfen hygyrchedd gwefan - Cymer a Hywel Hughes. Mae wedi bwrw ymlaen â Hywel Hughes, y rhatach o'r 2.
4.6	**Broadband** – Mewn llaw
4.7	**Carthffosiaeth Talwrn** – (adolygu)
	Llofnod…….Cadeirydd 20.07.21

4.8	**Llain Wen/Llys yr Efail –** Mae'r Cyngor Sir yn cadarnhau nad yw'r darn o dir wedi'i gofrestru. Bydd y Cynghorydd Vaughan yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r etholwr
4.9	**Maes parcio Mynydd Bodafon** - Mae'r Clerc wedi cyfeirio'r mater at Gyngor Cymuned Moelfre yn unol â chais y Cyngor Sir
4.10	**Bin maes parcio Llyn Cefni -** Mae'r Clerc yn disgwyl am ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru
4.11	**Cytundeb Cors y Plwyf** - Mae'r Clerc yn ceisio trefnu cyfarfod
4.12	**Adolygu Rheolau Cyllid, Risgiau, Rheolau Sefydlog -** Fe'u hadolygwyd i gyd heb unrhyw newidiadau
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	**Lon Llangwyllog – Llynfaes** – gweler 4.2
	Cynllunio
5.2	DAG/2021/13 Neuadd Wen, Tregaian (dim digon o wybodaeth)
5.3	FPL/2021/123 Ty Newydd, Maenaddwyn – dim sylwadau
5.4	HHP/2021/158 Tan yr Onnen, Talwrn – dim sylwadau
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Menter Mon – Pwyntiau Gwefru Ynys Mon** – Mae Cyng McGregor wedi pasio y gwybodaeth ymlaen I Neuadd Talwrn ac maent yn paratoi cais. Cytunwyd i gefnogi eu cais a gwneud cais am un yn Llangwyllog.
6.2	**Gwair Maes y Coed Talwrn** - Mae'r Clerc wedi derbyn cais gan Mrs Ashcroft yn Maes y Coed i'r gwair gael ei dorri eto. Cytunwyd i barhau gyda'r cytundeb presennol o 3 thoriad y flwyddyn
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd I dalu Unllais Cymru £60.00 (hyfforddiant y Cod Ymddygiad Cyng W Vaughan a Cyng E S Williams)
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Ethol Cadeirydd/Is-Gadeirydd 2021/22 - Etholwyd y Cynghorydd D Roberts yn Gadeirydd a dirprwy y Cyng W Vaughan. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd A C Jones am sefyll fel Cadeirydd am y flwyddyn ddiwethaf
	Llofnod…….Cadeirydd 20.07.21

9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Glaswellt rhwng y tai cyngor a'r hen eglwys
9.2	Ymgynghoriad tai haf/treth cyngor
9.3	Torri gwair ochrau ffyrdd
9.4	Gwahoddiad I'r PCSO i'r cyfarfod nesaf
	Llofnod…….Cadeirydd 20.07.21